

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Fairwater Green,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r  
Fro

Dyddiad arolygu: 16 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 16 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	19
4.	Y camau nesaf .....	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	25
	Atodiad C - Cynllun gwella .....	26

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Fairwater Green, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 16 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 25 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Nodwyd bod y staff yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod y practis yn ceisio darparu ar gyfer triniaeth frys heb ei threfnu ar yr un diwrnod a bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gosod bleind rhwng yr ystafell ddihalogi a'r ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.
- Gwella mynediad i gadeiriau olwyn i'r toiled i'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn, gan nodi bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn' neu'n 'dda'
- Roedd y practis yn ymdrechu i drefnu apwyntiad i'r cleifion ar amser a oedd yn addas iddynt.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod safle'r practis mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus ac wedi'i addurno i safon uchel.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Roedd y cofnodion deintyddol yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn, gyda rhai mân feysydd i'w gwella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal asesiadau risg tân mwy trylwyr ar y safle
- Gosod sinc golchi dwylo penodol yn yr ystafell ddihalogi

- Sicrhau y ceir cydsyniad ar sail gwybodaeth bob amser a'i gofnodi yng nghofnodion cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis ystafell ddihalogi ar wahân a chafodd y broses effeithiol ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro ei disgrifio a'i dangos
- Polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr a adolygwyd yn ddiweddar ac a oedd yn nodi rhif y fersiwn.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y rheolwr cofrestredig yn weladwy, a gwelsom linellau adrodd clir ar gyfer y staff a phractis a oedd yn cael ei redeg yn dda. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu rolau gyda thystiolaeth o arfarniadau rheolaidd.

Ar y cyfan, ystyriwyd bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff a rhwymedigaethau proffesiynol yn dda iawn, er bod angen i sawl aelod o'r staff gael hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd.

Er y gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis y cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cynnal gwiriadau addas cyn i staff newydd ddechrau gweithio
- Dull rhagweithiol o gasglu a dadansoddi adborth
- Hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd ar gyfer staff nyrsio

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol
- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau
- Rhaglen sefydlu gynhwysfawr a chymorth llesiant ar gyfer staff.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Dywedodd pob un o'r 25 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Roedd pawb yn groesawgar a chyfeillgar. Awyrgylch dymunol.”*

*“Ar ôl sawl profiad negyddol wrth gael gofal deintyddol mewn practisau eraill, o'r diwedd rwyf wedi dod o hyd i ddeintydd sy'n deall fy ofnau ynghylch triniaeth ddeintyddol ac mae fy nhriniaeth yn canolbwyntio ar leihau'r ofnau hyn. Rwy'n falch iawn o'r gofal a'r driniaeth a gaf.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r cleifion yn cael eu cyfeirio at wybodaeth sydd ar gael yn yr ardaloedd aros, neu ar-lein.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei ddeall. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym hefyd fod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gwelsom fod arwyddion yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle. Roedd hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

##### Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion a'r cynrychiolwyr â charedigrwydd a pharch.



Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom fod bleinds ar ffenestri yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi preifatrwydd, er bod ffenestr heb fleind mewn un ddeintyddfa a oedd yn edrych i mewn i'r ystafell ddihalogi. Byddai hyn yn golygu bod y staff sy'n defnyddio'r ystafell ddihalogi yn gallu gweld cleifion yn cael triniaeth yn y ddeintyddfa hon.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod bleind ar y ffenestr rhwng deintyddfa un a'r ystafell ddihalogi er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.**

Dywedodd pawb a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch.

Roedd desg y dderbynfa yn yr ystafell aros ar y llawr gwaelod. Fodd bynnag, roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth siarad â nhw, gan gynnwys wrth gynnal sgysiau dros y ffôn. Dywedwyd wrthym y byddai deintyddfa segur ar gael i drafod materion sensitif â staff y practis.

Roedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn ardal y dderbynfa.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (24/25) a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, ynghyd â risgiau a buddiannau'r driniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio gwasanaeth negeseuon ar unwaith yn y deintyddfeydd sy'n rhybuddio'r dderbynfa am unrhyw achosion o oedi. Byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion pe byddai unrhyw oedi cyn iddynt gael eu gweld ar amser eu hapwyntiad.

Ar hyn o bryd, mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu drwy wasanaeth sgwrsio dros y we ar wefan y practis. Dywedwyd wrthym os oedd angen triniaeth ddeintyddol frys ar gleifion y byddai hyn yn cael ei drefnu drwy ddefnyddio'r un dull.

Clywsom nad yw'r practis yn cynnig apwyntiadau galw heibio ond y gellir darparu ar gyfer achosion brys ar y diwrnod gan fod triniaethau heb eu cynllunio ar gael naill ai ar ddechrau neu ar ddiwedd y diwrnod, neu lle ceir bylchau rhwng apwyntiadau. Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth brys y tu allan i oriau'r bwrdd iechyd ar gael gyda'r nosau ac ar benwythnosau.

Clywsom fod y practis yn rhoi blaenoriaeth i achosion o chwyddo, triniaethau canser a materion brys eraill ynghyd â chleifion Denplan a chleifion preifat.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn amlwg y tu allan i'r safle gyda rhif ffôn y practis. Dywedodd ychydig dros draean o'r ymatebwyr wrthym na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Gwelsom fod y rhifau cyswllt brys y tu allan i oriau wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion a oedd ar gael o'r dderbynfa ac ar wefan y practis ar gyfer cleifion oedd â mynediad digidol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y rhifau cyswllt brys y tu allan i oriau wedi'u harddangos y tu allan i'r practis.

**Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig arddangos y rhifau cyswllt brys y tu allan i oriau y tu allan er mwyn hysbysu cleifion nad oes ganddynt fynediad digidol a rhoi tystiolaeth o hyn i AGIC.**

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion aros rhwng 24 awr a phythefnos rhwng pob apwyntiad i gael triniaeth, yn dibynnu ar y broblem dan sylw. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi ei chael hi'n hawdd trefnu apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Gwelsom mai prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael i'r cleifion drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond yn Saesneg yr oedd y wybodaeth ysgrifenedig a oedd wedi'i harddangos yn y practis yn bennaf, gyda dim ond tair taflen a ddarparwyd gan GIG Cymru ar gael yn ddwyieithog. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried opsiynau ar gyfer cyfieithu taflenni ond eu bod wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i'r hyn a gyflenwir gan eu darparwyr allanol.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg ac felly nad yw'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio pecyn TG sy'n cynnig fersiynau iaith amgen, hawdd eu darllen a llafar o gyfarwyddiadau i gleifion â nam ar eu golwg a dywedwyd wrthym hefyd fod Gwasanaeth Cyfieithu Cymru ar gael i'r staff. Fodd bynnag, rydym yn argymhell

y dylai'r practis gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn cael cyngor a chymorth i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn unol â Safonau'r Gymraeg<sup>1</sup>.

**Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.**

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod gofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yr oedd pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen ac yn cytuno ar ei gynnwys.

Gwelsom fod cleifion sydd â phroblemau symudedd yn cael cynnig triniaeth yn neintyddfa un ar y llawr gwaelod.

Roedd mynediad gwastad i safle'r ddeintyddfa a rampiau i sicrhau mynediad i ddeintyddfa un a'r toiled i gleifion sydd wedi'i leoli ar y llawr gwaelod. Fodd bynnag, nodwyd bod y drws i'r toiled i gleifion yn gul ac na fyddai'n sicrhau mynediad i gadeiriau olwyn. Hefyd, nid oedd canllawiau yn y toiled i helpu cleifion â phroblemau symudedd i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn. Ymhellach, nid oes unrhyw sôn am broblemau hygyrchedd gyda'r toiled yn llenyddiaeth gwybodaeth y practis.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau i'r practis ddiwallu anghenion defnyddwyr cadeiriau olwyn o ran cyfleusterau'r toiled.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben i hysbysu'r cleifion am ofynion mynediad y toiledau yn y practis.**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch. Fodd bynnag, dywedodd dau ymatebydd eu bod o'r farn mai dim ond rhannol hygyrch ydyw a dywedodd dau arall nad oeddent yn siŵr. Roedd y sylwadau a roddwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn dangos bod y grisiau'n broblem hygyrchedd.

---

<sup>1</sup> <https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-sylfaenol>

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da gydag ystafelloedd triniaeth mawr a oedd wedi'u goleuo'n dda a'u haerdymheru. Mae'r deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Y tu mewn i'r safle, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi ar gynnal a chadw'r adeiladau. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a ddarparodd bolisi cynnal a chadw ar gyfer yr adeiladau a'r safle yn dilyn yr arolygiad.

Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Gwelsom fod cyfleusterau i'r staff newid mewn preifatrwydd er nad oedd loceri i'r staff storio eu heiddo personol yn ddiogel.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r cyfleusterau i storio eiddo personol y staff.**

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch ar waith a bod asesiad risg iechyd a diogelwch wedi'i gynnal o fewn y mis diwethaf. Roedd poster lechyd a Diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld.

Gwelsom fod allanfeydd tân heb ddim yn eu rhwystro ac arwyddion gwagio'r adeilad i'w gweld yn hawdd drwy'r safle. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar diffodd tân cyfredol ar waith ac roedd archwiliadau wedi'u cynnal o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân wedi'u lleoli mewn sawl lleoliad ac roeddent ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe bai tân. Gwelsom fod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob mis a'u bod yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Roedd hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer un aelod newydd o'r staff.

Gwelsom fod asesiad risg tân elfennol wedi'i gwblhau yn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, roedd hyn yn rhan o'r asesiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol ac nid oedd mor fanwl â'r disgwyl.

**Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn trefnu bod asesiad risg tân ar wahân yn cael ei gynnal o'r safle, gan nodi'r risgiau a'r camau sy'n ofynnol i'w lliniaru a rhoi tystiolaeth o hyn.**

Roedd polisi wrth gefn mewn argyfwng ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llifogydd neu os bydd y system yn methu. Roedd hyn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y tîm ymateb mewn argyfwng dynodedig a rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer contractwyr. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r cynllun parhad busnes.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol.

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod amgylchedd y practis yn 'lân iawn'. Dywedodd y ddau ymatebydd arall ei fod yn 'gymharol lân'. Roedd y rhan fwyaf (24/25) hefyd o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, a dywedodd un ymatebydd nad oedd yn gwybod.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Gwelsom fod posteri wedi'u harddangos a oedd yn rhoi cyngor i'r staff a'r cleifion ar y weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo yn effeithiol. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff.

Roedd ystafell ddihalogi benodol gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Disgrifiwyd a dangoswyd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol y gellir ei aildefnyddio, fodd bynnag, nodwyd er bod dau sinc ar wahân yn yr ystafell ddihalogi, yr ystyriwyd eu bod yn rhy agos at ei gilydd i osgoi croes-halogi. Nodwyd nad oedd sinc ar wahân i olchi dwylo yn unol â chanllawiau 07-01 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod sinc ar wahân i'r staff olchi eu dwylo yn ystod y broses ddihalogi.**

Gwnaethom arolygu'r cofnodion ar gyfer y cyfarpar awtoclaf a gwelsom fod rhestrau gwirio'n cael eu cwblhau ar gyfer dechrau a diwedd y gwiriadau dyddiol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y ddogfen comisiynu gosodiad ar gael ar gyfer un awtoclaf a brynwyd yn ddiweddar. Darparwyd y ddogfen ofynnol i AGIC yn fuan ar

ôl yr arolygiad a oedd yn cadarnhau bod y broses gomisiynu wedi'i chynnal cyn yr arolygiad. Hefyd, gwnaethom nodi nad oedd profion Helix dyddiol yn cael eu cynnal ar yr awtoclaf sugno ac nad oedd pecynnau prawf Helix yn bodoli. Archebodd y rheolwr cofrestredig becynnau prawf Helix ar adeg yr arolygiad.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod prawf Helix dyddiol yn cael ei gynnal ar bob awtoclaf sugno a rhoi tystiolaeth o hyn.**

Gwelsom fod yr archwiliad dihalogi diwethaf wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod y gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion priodol cyn iddo gael ei gasglu. Gwelsom hefyd fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y gwastraff gypswm yn cael ei wahanu i'w waredu yn unol â chanllawiau 07-01 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gael cynhwysydd penodol ar wahân er mwyn casglu a gwaredu gwastraff gypswm yn briodol.**

Gwelwyd rhywfaint o ddeunydd deintyddol a oedd wedi dyddio yn nrôr un o'r deintyddfeydd yn ystod yr arolygiad.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system ar waith i wirio dyddiadau dod i ben y deunyddiau deintyddol yn y practis.**

Gwnaethom gadarnhau bod y rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom nad oedd polisi ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Fodd bynnag, rhoddwyd hwn ar waith ar adeg yr arolygiad.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Roedd hwn yn seiliedig ar y canllawiau dadebru cenedlaethol cyfredol ac roedd wedi'i adolygu o fewn y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom arolygu cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Gwelwyd bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y bydd angen cael meddyginiaethau newydd. Gwelsom hefyd fod cofnodion gwiriadau wedi'u cwblhau, a'u bod yn cadarnhau bod pob

meddyginiaeth o fewn ei dyddiad defnyddio. Fodd bynnag, roedd masgiau a thiwbiau ocsigen rhan o'r cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng heibio'u dyddiad dod i ben ac ni chawsom sicrwydd y gellid eu defnyddio'n effeithiol mewn argyfwng. Archebodd y rheolwr cofrestredig rai newydd ar adeg yr arolygiad.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ond gwelsom fod rhai eitemau wedi dyddio. Archebodd y rheolwr cofrestredig eitemau newydd yn eu lle ar unwaith.

Gwelsom mai'r rheolwr cofrestredig oedd yr unig swyddog cymorth cyntaf a benodwyd. Gwnaethom awgrymu y dylai ystyried penodi aelod arall o'r staff ar gyfer absenoldeb y swyddog cymorth cyntaf presennol. Cwblhaodd ail aelod o'r staff hyfforddiant cymorth cyntaf a chafodd ei benodi ar adeg yr arolygiad.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â diogelu ac roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol ar gael i'r staff pe bai pryder. Roedd gan y practis arweinydd diogelu ar waith.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cael hyfforddiant priodol a'u bod yn gwybod am ddiogelu a bod sawl aelod o'r staff yn aros i gwblhau cwrs hyfforddiant. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi lawrlwytho ap Diogelu Cymru Gyfan i'w ffonau er mwyn sicrhau bod yr arweiniad diweddaraf ar gael iddynt.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod lefel briodol o hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau gan bob aelod perthnasol o'r staff a rhoi tystiolaeth o hyn i AGIC.**

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel yn y practis. Gwelsom hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw ac wedi cael y profion gofynnol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol



a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Gwelsom fod gwerthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob archwiliad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofion y cleifion.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio wedi'u hargymell er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael cyngor proffesiynol perthnasol lle bo angen. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (22/25) a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal er mwyn cynnal lefelau iechyd y geg da. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (21/25) yn cytuno eu bod wedi cael arweiniad clir ar beth i'w wneud os bydd haint neu argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu, ond roedd un ymatebydd yn anghytuno.

### **Cofnodion y Cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg claf. Gwelsom fod system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd gan yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt ddynodyddion cleifion addas, fel enw a dyddiad geni'r claf, y rheswm dros fynychu a chofnodwyd hefyd y symptomau a ddisgrifiwyd gan gleifion.

Roedd pob cofnod a adolygwyd yn cynnwys yr hanes deintyddol blaenorol gan gynnwys defnydd o alcohol a thybaco lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd prosesau hybu iechyd y geg, fel cyngor ar roi'r gorau i smygu, wedi cael eu cofnodi yng nghofnodion perthnasol dau glaf.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei roi a'i gofnodi yn nodiadau cleifion sy'n smygu.**

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cynnwys system i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei wirio ym mhob ymgynghoriad. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (23/25) a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC mai dyma oedd yr achos.

Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, Archwiliad Periodontol Sylfaenol, archwiliad meinweoedd meddal ac archwiliad y tu allan a'r tu mewn i'r geg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod yng nghofnodion y cleifion i nodi a oedd profion sgrinio canser wedi'u cynnal.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff profion sgrinio canser y geg eu cynnal a'u cofnodi yng nghofnodion y cleifion.**

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cofnodion dau glaf yn nodi y cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn eu triniaeth.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y ceir cydsyniad ar sail gwybodaeth bob amser a'i gofnodi yng nghofnodion cleifion.**

Nodwyd gennym nad oedd dewis iaith y cleifion wedi cael ei gofnodi ar gyfer pedwar claf.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cleifion.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd y practis yn defnyddio system electronig i sicrhau bod trefniadau ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau gofal iechyd eraill yn effeithiol a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon gyda gofal deintyddol brys yn cael ei gynnal o amgylch apwyntiadau arferol wedi'u trefnu ymlaen llaw.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn un teuluol ail genhedlaeth a'r rheolwr cofrestredig yw'r perchennog presennol a'r prif ddeintydd. Roedd rheolwr practis yn cael ei gyflogi a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Cafodd y trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff a chyfathrebu ad hoc â'r staff drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cymryd a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hanfon dros e-bost i'r staff sy'n absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf mewn materion cysylltiedig â'r gwaith.

Gwnaethom gadarnhau fod amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Roedd y sampl o bolisiau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu ac wedi'u cymeradwyo gan staff a wnaeth gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Adolygwyd y ddwy ddogfen yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nodwyd bod y datganiad o ddiben yn cynnwys hen rif ffôn Galw lechyd Cymru ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth y tu allan i oriau. Er bod y rhif hwn yn ailgyfeirio cleifion i'r rhif cywir, rydym yn awgrymu y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r datganiad o ddiben i gynnwys rhifau ffôn cyswllt y tu allan i oriau cyfredol y GIG.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r datganiad o ddiben i ddangos manylion cyswllt y tu allan i oriau cyfredol y GIG ac yn rhoi copi i AGIC.

## Y gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ogystal â'r prif ddeintydd a rheolwr y practis, roedd tîm y practis yn cynnwys tri deintydd cyswllt, therapydd sylfaenol, saith nyrs ddeintyddol a derbynyddion. Dywedwyd wrthym nad oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Roedd enwau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis ynghyd â'r rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir ar fynedfa'r practis.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae angen iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practisau deintyddol.

Gwelsom fod proses sefydlu gan gynnwys cyfnod prawf ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o yswiriant indemniad a thystiolaeth o gofrestriad cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystiolaeth o imiwneiddio. Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dilys heblaw am un cyflogai newydd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y ceir tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dilys ar gyfer y cyflogai newydd a bod dystiolaeth yn cael ei rhoi i AGIC.**

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gyfrifol am gynnal eu cofrestriad eu hunain â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ond bod y costau'n cael eu cwmpasu gan y practis.

Gwelsom fod rhwymedigaethau proffesiynol y staff fel cofrestriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac indemniad proffesiynol wedi cael eu gwirio. Gwelsom dystiolaeth bod staff a gyflogir gan y practis wedi cael arfarniadau gwaith rheolaidd a dywedwyd wrthym fod hyfforddiant staff yn cael ei reoli gan ddefnyddio meddalwedd priodol. O fewn y sampl o ffeiliau a adolygwyd gennym, gwelsom fod staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis.

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Cafodd y trefniadau eu disgrifio ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Gwelwyd bod hysbysiad Canllawiau Cwyno ar gael yn ardaloedd aros y cleifion.

Dywedwyd wrthym y gall y cleifion adael adborth ar lafar, yn ysgrifenedig neu ar-lein. Gwelsom fod ffurflenni adborth ar gael ar gais gan y derbynnydd, y gellid eu gadael mewn blwch adborth cleifion ar ôl eu cwblhau. Fodd bynnag, dywedwyd

wrthym nad oedd llawer o ffurflenni wedi'u cwblhau gan y cleifion. Gwnaethom ystyried ei bod yn bosibl bod gorfod gofyn am gael ffurflen adborth gan y derbynydd yn atal rhai cleifion sydd am aros yn ddiennw rhag gwneud hynny.

**Rydym yn argymhell y dylai ffurflenni adborth fod ar gael yn hawdd i'r cleifion heb fod angen gofyn i'r staff.**

Gwelsom fod gweithdrefnau cwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd y rhain yn cael eu harddangos yn ardal y dderbynfa ac yn nodi amseroedd aros disgwylidig a manylion sefydliadau eraill sydd ar gael i gael help a chefnogaeth. Fodd bynnag, enw cyn gyflogai a roddwyd ar gyfer y rheolwr cwynion. Unionwyd y sefyllfa hon ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon / cwynion ar ôl triniaeth, a gwnaeth un ymatebydd anghytuno.

Roedd system bapur ar waith ar gyfer cofnodi cwynion a wneir i'r practis, a gynhelir gan reolwr y practis. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym mai dim ond ar gofnodion cleifion yr oedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi. Roedd rheolwr y practis yn ymwybodol bod angen cofnodi'r rhain hefyd yn y ffolder cwynion. Dywedwyd wrthym y byddai cwynion yn cael eu dadansoddi i nodi themâu cyffredin. Fodd bynnag, am fod cyn lleied ohonynt, ni ellid dod i unrhyw gasgliad. Rydym yn awgrymu bod y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod cwynion llafar hefyd yn cael eu cofnodi yn y ffolder cwynion i sicrhau eu bod yn rhan o unrhyw broses dadansoddi cwynion.

Gwelsom fod polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith yn y practis. Fodd bynnag, pan wnaethom siarad â'r staff, nid oedd y nyrsys deintyddol yn ymwybodol ohono a gwnaethant ddweud nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant mewn perthynas â hyn. Nododd y rheolwr cofrestredig fod y deintyddion wedi'u hyfforddi ac mai'r gred oedd bod hyn yn ddigon.

**Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff nyrsio yn cwblhau hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei rhoi i AGIC.**

## **Dysgu, Gwella ac Ymchwil**

### **Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Gwelsom fod polisi sicrhau ansawdd a oedd wedi'i adolygu'n ddiweddar ar waith a dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd fel rhan o

weithgarwch gwella ansawdd y practis. Gwelsom fod archwiliad cadw cofnodion ac arolwg boddhad staff wedi'i gwblhau dros y misoedd diwethaf.

Mae'r practis yn aelod o gynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ac mae'n defnyddio adnodd Hyfforddi Gwella Ansawdd fel yr Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET) ac mae wedi cwblhau'r gweithdy Arian Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd a gyflwynir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

## **Dull Systemau Cyfan**

### **Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Gwnaethom asesu'r trefniadau a oedd ar waith yn y practis i ddefnyddio systemau rheoli ansawdd allanol i gefnogi gwelliannau er mwyn darparu gwasanaeth o safon. Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod metrigau GIG y practis yn cael eu lawrlwytho a'u gwirio'n rheolaidd er mwyn rheoli ac asesu a oeddent yn cyrraedd targedau'r GIG.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Angen profion Helix ar yr awtoclaf sugno er mwyn sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu sterileiddio'n effeithiol.	Gallai hyn arwain at gyfarpar deintyddol yn peidio â chael ei sterileiddio'n ddigonol gan greu risg o haint.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Y rheolwr cofrestredig yn archebu pecyn prawf Helix.
Roedd masgiau a thiwbiau ocsigen rhan o'r cyfarpar brys wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben.	Ni allem fod yn sicr y gellid eu defnyddio'n effeithiol mewn argyfwng.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Rhai newydd yn cael eu harchebu gan y rheolwr cofrestredig.
Penodi swyddog cymorth cyntaf ychwanegol	Gall cleifion wynebu risg os nad oedd yr unig swyddog cymorth cyntaf a benodwyd ar gael.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Aelod o staff yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf ar-lein ac yn cael ei benodi ar adeg yr arolygiad.



# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Fairwater Green

Dyddiad yr arolygiad: 16 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Fairwater Green

Dyddiad yr arolygiad: 16 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom fod ffenestr rhwng yr ystafell ddihalogi a'r ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn peryglu preifatrwydd ac urddas y cleifion.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod bleind ar y ffenestr rhwng deintyddfa un a'r ystafell ddihalogi.	Rheoliad 15 (1) - Preifatrwydd ac Urddas - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae bleind wedi'i osod eisoes	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau
Gwelsom nad oedd manylion cyswllt mewn argyfwng wedi cael eu harddangos y tu allan i hysbysu cleifion nad oes ganddynt fynediad digidol.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig arddangos y rhifau cyswllt brys y tu allan i oriau y tu allan a rhoi tystiolaeth o hyn i AGIC.	Safon Ansawdd - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Mae llythrennau finyl wedi'u gosod gyda'r rhif 24/7 ar gyfer Caerdydd a'r Fro ar	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau

			fffenestr allanol.		
<b>Gwelsom mai gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n golygu ei bod yn bosibl nad yw anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith yn cael eu nodi na'u diwallu.</b>	Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.'	Safon Ansawdd - Teg	Mae taflenni'r practis eisoes wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau
<b>Mae'r drws i'r toiled i gleifion yn gul gan gyfyngu ar fynediad i gadeiriau olwyn sy'n golygu efallai na all cleifion gael mynediad i gyfleusterau sylfaenol.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried y ffordd orau i'r practis ddiwallu anghenion defnyddwyr cadeiriau olwyn o ran cyfleusterau toiled.</li> <li>• Diweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben i hysbysu cleifion am y gofynion mynediad i'r toiledau yn y practis.</li> </ul>	Rheoliad 22 (c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.  Rheoliad 5 a 6 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Oherwydd cynllun yr adeilad ni fyddai'n bosibl lledu'r drws a'r cyntedd sy'n arwain i doiled y cleifion er mwyn gwella mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau

			daflen wybodaeth y practis ac yn y datganiad o ddiben a ddiweddarwyd.		
<b>Gwelsom nad oedd unrhyw loceri i'r staff storio eu heiddo personol yn ddiogel.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r cyfleusterau i storio eiddo personol y staff.	Rheoliad 22 (3)(b)	Mae loceri wedi cael eu prynu a'u gosod yn ardal gymunedol y staff ar y llawr gwaelod. Ni ellir cynyddu maint yr ystafell gotiau ar y llawr gwaelod sy'n cael ei defnyddio fel ystafell newid.	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau
<b>Gallai'r asesiad risg tân sylfaenol a welwyd yn yr Aseiad Risg lechyd a Diogelwch olygu nad yw'r</b>	Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn trefnu bod asesiad risg tân ar wahân yn cael ei gynnal o'r safle,	Rheoliad 22 (f) - Rheoliadau Deintyddiaeth	Cynhaliwyd asesiad risg tân ychwanegol gan	Timothy Phillips	Adroddiad asesu risg i fod yn barod ymhen wythnos.

<b>holl risgiau wedi'u hystyried yn llawn.</b>	gan nodi'r risgiau a'r camau sy'n ofynnol i'w lliniaru a rhoi tystiolaeth o hyn.	Breifat (Cymru) 2017.	gwmni allanol ar 20 Hydref.		
<b>Dim sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi sy'n golygu y gellir peryglu hylendid y staff.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod sinc ar wahân i'r staff olchi eu dwylo yn ystod y broses ddihalogi.	Rheoliad 13(3)(b) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Sinc golchi dwylo ychwanegol eisoes wedi'i osod.	Timothy Phillips	Wedi'i osod ar 13 Hydref 2023
<b>Gwelsom nad oedd prawf Helix yn cael ei gynnal ar yr awtoclaf sugno sy'n golygu nad yw effeithiolrwydd y cyfarpar sterileiddio'n cael ei wirio.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd bod prawf Helix dyddiol yn cael ei gynnal ar bob awtoclaf sugno a rhoi tystiolaeth o hyn.	Rheoliad 13(3)(b) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Prynwyd cyfarpar prawf Helix ac mae'r profion yn cael eu cynnal yn ddigon aml	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau
<b>Gwelsom nad oedd gwastraff gypswm yn cael ei wahanu oddi wrth wastraff arall a allai olygu bod deunydd niweidiol yn cael ei ryddhau i'r amgylchedd.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu cynhwysydd penodol ar wahân ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff gypswm yn briodol.	Safon Ansawdd - Diogel	Mae gwastraff gypswm wedi'i ychwanegu at ein contract gydag Initial Medical Waste	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau
<b>Gwelwyd rhywfaint o ddeunydd deintyddol a</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau	Rheoliad 13 (6)(b)(ii) -	Mae cofnodlyfr wedi'i sefydlu	Timothy Phillips	Eisoes wedi'i gwblhau

<p>oedd wedi dyddio yn nrôr un o'r deintyddfeydd yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>bod system ar waith i wirio dyddiadau dod i ben y deunyddiau deintyddol yn y practis.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>ar gyfer pob deintyddfa lle mae gwiriadau wythnosol wedi'u cynnal ar gyfer deunyddiau y mae eu dyddiad wedi mynd heibio.</p>		
<p>Gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion a allai olygu nad yw anghenion oedolion agored i niwed yn cael eu nodi.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant diogelu heb ei gwblhau yn cael ei gwblhau a rhoi tystiolaeth o hyn.</p>	<p>Rheoliad 14 (b) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Dim ond un aelod o'r staff nad oedd ganddo'r dystysgrif wrth law ond a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae'r dystysgrif hon eisoes wedi'i hanfon i AGIC</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau</p>
<p>Nid oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi'i</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei roi a'i</p>	<p>Rheoliad 20(1)(a)(i) - Rheoliadau Deintyddiaeth</p>	<p>Mae templed wedi'i sefydlu ar feddalwedd</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau</p>

<p><b>gofnodi'n gysgon yng nghofnodion y cleifion</b></p>	<p>gofnodi yn nodiadau cleifion sy'n smygu.</p>	<p>Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>y practis i sicrhau bod y broses o gofnodi cyngor ar roi'r gorau i smygu yn fwy dibynadwy</p>		
<p><b>Gwelsom nad oedd cofnodion y cleifion yn nodi a oedd profion sgrinio cancer wedi'u cynnal.</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff profion sgrinio cancer y geg eu cynnal a'u cofnodi yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Rheoliad 20(1)(a)(i) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Roedd profion sgrinio cancer wedi'u cynnal o dan yr archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg, gyda'r broses o gadw cofnodion yn nodi a oedd unrhyw anomaleddau'n cael eu canfod, ond mae'r templedi ar feddalwedd y practis bellach wedi'u diweddarau i</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau</p>

			gynnwys y term 'profion sgrinio cancer'		
<b>Nid oedd cydsyniad llafar yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y ceir cydsyniad ar sail gwybodaeth bob amser a'i gofnodi yng nghofnodion cleifion.	Rheoliad 13(9)(d) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae archwiliad o'r broses o gadw cofnodion yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a nodwyd nad oedd un deintydd yn cofnodi'r cydsyniad llafar. Nodwyd y dylai wneud gwell defnydd o feddalwedd y practis i'r perwyl hwn. Caiff hyn ei adolygu wrth i'r archwiliad gael ei ail-werthuso.	Timothy Phillips	Canfyddiadau cychwynnol wedi'u cwblhau, newidiadau wedi'u rhoi ar waith, ailarchwiliad o'r broses o gadw cofnodion i gael ei gynnal ymhen 6 mis



<p><b>Gwelsom nad oedd dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion, a allai ei gwneud hi'n anodd darparu gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cleifion</p>	<p>Rheoliad 13(1)(a) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Roedd meddalwedd y practis eisoes wedi'i ddiweddarau i gynnwys yr adran ar gyfer dewis iaith cyn yr arolygiad, ond roedd rhai cofnodion a wiriwyd yn dyddio o gyfnod cyn y diweddariad hwn.</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Eisoes ar waith</p>
<p><b>Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn cynnwys hen rif cyswllt y tu allan i oriau'r GIG</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r datganiad o ddiben i ddangos manylion cyswllt y tu allan i oriau cyfredol y GIG a rhoi copi i AGIC.</p>	<p>Rheoliad 5(1), Atodlen 1(9) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Diwygiwyd hyn i gynnwys llinell gymorth 24/7 Caerdydd a'r Fro a rhif 111 y GIG</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau.</p>
<p><b>Gwelsom fod gwiriad cyn cyflogi (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ar goll</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y ceir tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a</p>	<p>Rheoliad 18 (2)(b) - Rheoliadau Deintyddiaeth</p>	<p>Gwnaed cais am hyn ar gyfer Lucy Robinson,</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Aros am dystysgrif y Gwasanaeth</p>

<p>ar gyfer un cyflogai newydd.</p>	<p>Gwahardd dilys ar gyfer y cyflogai newydd a bod tystiolaeth yn cael ei rohi i AGIC.</p>	<p>Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>ac fe'i cafwyd ar gyfer yr aelod o staff ychwanegol, Olivia Grainger-Smith.</p>		<p>Datgelu a Gwahardd ar gyfer Lucy Robinson, cael cipolwg gan y darparwr Criminal Records Services Ltd</p>
<p>Roedd ffurflenni adborth gan gleifion ar gael o'r dderbynfa a all atal cleifion sydd am aros yn ddiennw rhag rhoi adborth.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai ffurflenni adborth fod ar gael yn rhwydd i gleifion heb orfod cynnwys y staff</p>	<p>Rheoliad 16(2)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Mae'r blwch ffurflenni adborth yn yr ardal aros fel arfer nid y tu ôl i'r dderbynfa. Roedd wedi cael ei symud gan y glanhawr y diwrnod cyn yr arolygiad i fan y tu ôl i'r dderbynfa ac nid oedd wedi cael ei symud yn ôl.</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau.</p>

<p>Gwelsom nad oedd y staff nyrsio'n ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n golygu ei bod yn bosibl na fydd cleifion yn cael gwybod os bydd pethau'n mynd o chwith â'u triniaeth.</p>	<p>Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff nyrsio yn cwblhau hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei rhoi i AGIC.</p>	<p>Rheoliad 8 (2)(a) - Hyfforddiant a Chymorth - Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023</p>	<p>Mae'r holl staff wedi cwblhau hyffordd Dyletswydd Gonestrwydd ers hynny</p>	<p>Timothy Phillips</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau, tystysgrifau eisoes wedi'u hanfon i AGIC</p>
---	---	---	--	-------------------------	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Timothy Phillips**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 20/10/2023**